# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Seren Fach**

**Tŷ Harri Webb**
**Dyffryn Road**
**Aberpennar**
**CF45 4DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Seren Fach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Seren Fach |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl Cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Ydy |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus, yn fodlon eu byd ac yn mwynhau treulio amser yng Nghylch Meithrin Seren Fach. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn teimlo'n gartrefol, yn fodlon eu byd ac yn gyfforddus yn y gwasanaeth. Mae'r plant yn dangos diddordeb ac maent yn gyffrous wrth chwarae. Gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u trefnu neu ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae'r staff yn hybu llesiant y plant yn bwrpasol. Maent yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r staff yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson ac yn dangos ymddygiad da. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r plant yn ogystal â chyfleoedd da i blant ddilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae mesurau effeithiol iawn ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnig ystod dda o adnoddau, teganau a chyfarpar priodol i oedran a cham.

Mae polisïau a gweithdrefnau effeithlon a chlir iawn ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth. Maent yn monitro ac adolygu eu gwasanaeth yn gyson ac yn rhoi gwelliannau ar waith yn dilyn eu hadolygiadau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant ac yn cynnal datblygiad proffesiynol ystyrlon. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn mynegi eu hanghenion a'u dymuniadau ac yn ymateb/rhyngweithio'n effeithiol ac yn ystyrlon. Er enghraifft, aeth plentyn dieiriau â char i aelod o'r staff, a ddilynodd ei anogaeth i chwarae gydag ef. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi'n fawr a'u gweithredu arnynt. Er enghraifft, cyfrannodd y plant hŷn at syniadau ar gyfer gweithgareddau i'r clwb ar ôl ysgol. Maent yn cael rhai cyfleoedd cyffrous i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu chwarae.

Mae'r plant yn ymdopi'n dda iawn â gwahanu oherwydd mae'r trosglwyddiadau dyddiol cyson yn cydnabod a chefnogi anghenion unigol a chânt eu rhoi ar waith yn effeithiol. Er enghraifft, pan ddaeth plentyn i mewn wedi'i gynhyrfu, rhoddwyd amser iddo dawelu ond hefyd i roi sicrwydd iddo. Mae'r plant wrth eu bodd ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Maent yn gyffrous i ddangos eu teganau a'u hadnoddau i'r staff a gwnaethant rannu eu profiad â'r bobl o'u cwmpas. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn siarad yn frwd am faint o baent y gallai ei weld ar ei ddwylo a'i wyneb, yn dilyn gweithgaredd. Mae'n amlwg bod gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau cryf ac maent yn gyfarwydd iawn â'r arferion dyddiol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ysgogol ac mae'r plant yn cydweithio'n frwdfrydig. Caiff y plant ddigonedd o gyfleoedd i gymdeithasu yn ystod amser byrbryd a chinio. Gwelsom y plant yn cofleidio'r staff yn ddigymell neu'n mynd atynt i gael sicrwydd. Mae'r plant iau yn dechrau gwneud ffrindiau ac yn poeni am bobl eraill. Er enghraifft, pan wnaeth un plentyn gynhyrfu, aeth plentyn arall draw at y staff i gael eu sylw a phwyntio at y plentyn a oedd wedi cynhyrfu. Mae'r plant hŷn yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant iau ac yn hyrwyddo/dangos ymddygiad da iddynt.

Mae'r plant yn llwyr ymroi i chwarae. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda iawn o gyfleoedd diddorol dan do a rhoddir rhyddid iddynt archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel. Er enghraifft, gallant symud yn rhwydd rhwng un o'r ystafelloedd chwarae a'r ystafell synhwyraidd. Mae gan y plant gymhelliant i gychwyn eu chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau oherwydd caiff y gweithgareddau eu harwain gan blant yn bennaf ond mae cyfleoedd hefyd i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau a arweinir gan oedolion. Maent yn dangos cyffro a diddordeb yn y teganau, yr adnoddau a'r gweithgareddau a gynigir ac mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnod o amser sy'n briodol i'w hoedran.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad gwych o gyflawni rhywbeth a hunan-barch mawr. Maent yn cael profiad o gwestiynau agored a chaeedig syml ac yn frwd dros ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall yn llwyr y polisïau ac yn eu rhoi ar waith yn gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol. Maent yn nodi risgiau ac yn eu rheoli. Maent yn atgoffa'r plant yn rheolaidd ynghylch cadw'n ddiogel ac yn arsylwi'r plant yn ofalus wrth chwarae er mwyn eu galluogi i gymryd risgiau. Er enghraifft, mae'r staff yn goruchwylio'r plant ar y ffrâm ddringo, gan roi'r rhyddid iddynt ddringo a swingio ond gan gynnig cymorth os oes angen. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da ar waith. Maent yn dilyn rota glanhau dyddiol ac yn hyrwyddo arferion hylendid da gyda'r plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant a gwnaethant ateb yn hyderus yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant. Maent yn cefnogi'r plant i siarad neu fynegi eu hunain yn dda am eu bod yn darparu ymateb cyson/yn rhyngweithio'n gyson.

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Clywsom lawer o glod cadarnhaol a gwnaeth y staff atgoffa'r plant am yr ymddygiad yr oeddent am ei weld ac maent yn ymddwyn fel modelau rôl da bob amser. Er enghraifft, pan aeth plentyn i daflu pêl synhwyraidd ar draws yr ystafell yn hytrach na'i rhoi yn y bocs, dywedodd yr aelod o'r staff *“paid – taflu yn y bocs”*. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae bron pob aelod o'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Mae'r staff yn llwyr ymwybodol o sut i gefnogi plant gydag anghenion ychwanegol.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn dechrau rhoi egwyddorion Cwricwlwm i Gymru ar waith, olrhain cynnydd y plant a defnyddio gwybodaeth ac arsylwadau i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cynllunio ac yn darparu ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu i'r plant. Mae'r staff yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Cymerant gamau priodol, a hynny mewn modd amserol, wrth gydnabod y gall fod gan blant anghenion ychwanegol a gwnânt ddefnydd da o'r gwasanaethau cymorth. Maent yn rhoi gwybodaeth i rieni. Mae'r staff yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol, fel plant gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol neu anghenion meddygol/maethol, sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn. Maent yn trefnu eu harferion glanhau rheolaidd ac mae eu harferion rheoli heintiau da yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant i'r eithaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol a thân effeithiol a chywir, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn sicrhau bod y safle mewn cyflwr da, gan ddilyn rhaglen cynnal a chadw rheolaidd. Maent yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth bwysig i'w gweld; gan gynnwys gweithdrefn gwagio'r adeilad mewn achos o dân ym mhob ystafell, amserlen sy'n dangos pwy sy'n gyfrifol am gasglu plant a gwybodaeth am alergeddau neu anghenion meddygol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod ardaloedd chwarae dan do o safon dda yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant ac yn galluogi'r rhan fwyaf ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn iddo gynnig amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas i bron pob ystod oedran y gofelir amdanynt. Mae sawl ystafell wedi'u trefnu i alluogi'r plant i fynd at amrywiaeth o ardaloedd, gan gynnwys ardaloedd creadigol, dychmygol, cymdeithasol a synhwyraidd. Ond maent hefyd yn darparu ystafelloedd sy'n datblygu sgiliau penodol. Er enghraifft, ceir ystafell a ddatblygwyd i alluogi plant i ymarfer eu sgiliau echddygol bras drwy ddringo, cydbwyso a defnyddio teganau reidio. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod bron pob plentyn yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar dan do o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer eu hoedran er mwyn ennyn diddordeb a dychymyg y plant. Gall y plant gael gafael ar lawer o ddeunyddiau chwarae naturiol a rhydd i'w harchwilio. Caiff y teganau a'r adnoddau eu storio ar lefelau isel a chaiff llawer o'r adnoddau eu cynnwys fel rhan o'r dull chwilfrydedd. Nid oes ardal chwarae awyr agored, ond mae'r arweinwyr yn gwneud trefniadau amgen i fynd â'r plant allan. Gwelsom luniau o'r plant yn archwilio'r ardal leol ac yn defnyddio'r lleoedd gwyrdd o'u cwmpas. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae'r arddangosfeydd yn ddwyieithog a gwelsom arddangosfa yn dathlu Cymru.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Ceir arweinyddiaeth gref yng Nghylch Meithrin Seren Fach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt amrywiaeth eang o bolisïau clir, gwerth chweil sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol ganddynt ac maent yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith i raddau helaeth. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y cofnodion gofynnol yn cael eu cadw'n gywir, gan gynnwys contractau, cofnodion o ddamweiniau/digwyddiadau a meddyginiaeth, sy'n cael eu rhannu â'r rhieni. Fodd bynnag, nid oedd llofnod rhiant ar y cofnod meddyginiaeth i gydnabod y cofnod. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd ac y cymerir camau os oes angen. Gallant ddangos eu bod yn mynd ati i roi canllawiau arfer gorau Llywodraeth Cymru, sef Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant, ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau gwaith hunanwerthuso yn weithgar. Mae'n gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr a'r staff. Maent yn cynhyrchu adroddiad ansawdd gofal da sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir, safbwyntiau'r rhieni a'r staff ac mae'n cynnwys cynlluniau i wella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau boddhaol ar waith i ddiweddaru gwiriadau ynglŷn ag addasrwydd fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, roedd gwybodaeth am eirdaon ar goll o ddwy ffeil staff. Ers yr arolygiad, mae hyn wedi'i unioni ac mae'r holl dystiolaeth o wiriadau cyn-cyflogi ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhoi gweithdrefn sefydlu briodol ar waith ar gyfer staff newydd. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac yn annog y staff i fynychu hyfforddiant amrywiol. Cynhelir gwaith goruchwylio da ac arfarniadau yn rheolaidd ac mae ffocws cryf ar gefnogi llesiant y staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cofnodi amseroedd presenoldeb gwirioneddol y plant ac yn sicrhau bod y staff yn cael eu lleoli'n dda i sicrhau y caiff y cymarebau staffio ac anghenion y plant eu diwallu. Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn ddigonol. At ei gilydd, maent yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni gan ddefnyddio negeseuon ac adborth ar lafar ar ddiwedd y sesiwn. Roedd yr adborth gan y rhieni yn dda iawn, gan ddweud y byddent yn argymell y gwasanaeth i bobl eraill, eu bod yn mynd y filltir ychwanegol i'r plant a'u teuluoedd a bod y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn hyfryd. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth gysylltiadau da ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a'r gymuned. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth a chyngor a roddir i wella'r gwasanaeth, llesiant y plant a'u hanghenion dynodedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau, pan fydd pryderon ynglŷn â chynnydd neu ddatblygiad plant, fod gweithdrefnau a phrotocolau ar waith i rannu gwybodaeth.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Sicrhau bod y rhieni'n llofnodi'r ffurflen rhoi meddyginiaeth i gydnabod y cofnod.

A2 – Sicrhau bod yr holl dystiolaeth o wiriadau cyn-cyflogi ar gael i'w harchwilio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/12/2022